# TYFU TORIADAU PERLYSIAU

**COFIA**
Cymra'r toriadau yn y bore pan fydd y planhigyn yn llawn dŵr

1


**Dewisa dy blanhigyn:** perlysiau fel rhosmari, saej, teim a lafant sy'n gwneud y toriadau gorau.

2


**Chwilia am y tyfiant gwyrdd:** bydd pen y coesynnau'n fwy gwyrdd. Tyfiant newydd yw hwn, a dyma'r rhan orau i wneud toriadau.

3


**Torra un o'r coesynnau:** torra'r 10cm o dyfiant newydd, gan dorri yn union o dan ble mae deilen yn ymuno â'r coesyn.

4


**Tynna'r dail gwaelod:** fel na fyddan nhw'n pydru. Cadwa ychydig o ddail ar ben y coesyn.

5


**Planna'r toriad:** rho gompost mewn potyn. Gwna dwll a phlannu'r coesyn hyd at y dail. Gelli di roi 2-3 toriad yn y potyn, ond gwna'n siŵr fod y coesynnau ddim yn cyffwrdd.

6


**Cadwa nhw'n gynnes:** rho nhw yn y tŷ gwydr neu rho fag plastig clir dros y potyn i'w cadw'n gynnes a lleihau faint o ddŵr sy'n dianc.

7


**Dyfria pan fydd y pridd yn sych:** os rhoi di ddŵr yn rheolaidd, bydd y gwreiddiau'n datblygu'n gryf.

8


**Ailblanna nhw:** mae toriadau'n gallu cymryd rhai wythnosau i dyfu gwreiddiau. Ar ôl iddyn nhw sefydlu, gelli di botio pob planhigyn yn unigol. Pan fyddan nhw'n ddigon mawr, planna nhw yn y pridd.

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES